| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 01/07/20 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 19/05/21 |
| **Rhif y fersiwn:** | 2.01 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Maes Gwaith:** | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau i Oedolion<br>Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau i Blant |
| **Manylion cyswllt:** | **Gwasanaethau i Oedolion**<br>Jo Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol willij6@caerffili.gov.uk 01443 864611<br>**Gwasanaethau i Blant**<br>Gareth Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Jenkig2@caerffili.gov.uk 01443 864520 |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant) yn defnyddio'r data personol sy'n dod i law wrth weithredu ei wasanaethau. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn hefyd yn esbonio sut y bydd data personol yn cael eu defnyddio os credir y gallai plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed fod mewn perygl. |

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

## Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Bydd cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn storio unrhyw fanylion sy'n ymwneud â'ch sefyllfa mewn ffordd a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i'ch helpu i ddiwallu eich anghenion a/neu anghenion eich teulu a'n rhwymedigaethau o ran amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Bydd yr adran hon yn esbonio'r categorïau o ddata personol a allai gael eu rhannu gyda ni a'r math o sefydliadau/unigolion a allai roi gwybodaeth i ni.

**Categorïau o ddata personol a geir**

Gall Gwasanaethau Cymdeithasol gael y categorïau canlynol o'ch data personol:

- Enw

- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Rhywedd
- Manylion Cyswllt
- Rhif Yswiriant Gwladol

Gall Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd gael a chadw gwybodaeth fwy penodol gan gynnwys:

- Manylion am eich anghenion ym mhob rhan o'ch bywyd (e.e. eich anghenion gofal a chymorth)
- Gwybodaeth am aelodau eraill eich cartref
- Manylion am berthnasau teuluol yn eich cartref a thu allan
- Enwau a manylion cyswllt eich perthnasau agos a/neu eich gofalyddion
- Manylion am unrhyw wasanaethau eraill rydych chi'n eu derbyn
- Gwybodaeth a ddefnyddir i asesu eich sefyllfa, megis asesiadau ac adroddiadau
- Pethau y mae sefydliadau eraill (megis y gwasanaeth iechyd, ysgolion neu gartrefi gofal) yn dweud wrthym i'n helpu i ddeall eich sefyllfa ac anghenion a chydlynu'ch gwasanaethau gofal yn fwy effeithiol
- Cofnodion o unrhyw ymweliadau neu gysylltiad a wnaethoch neu a wnaethom gyda chi
- Unrhyw anghenion neu anabledd ychwanegol
- Gwybodaeth ariannol
- Manylion am eich Iechyd meddwl a'ch gallu
- Manylion am eich Iechyd corfforol
- Manylion am eich Lles
- Manylion am eich canlyniadau Personol
- Manylion am eich gwybodaeth Dull Byw
- Cofnod troseddol
- Cyfiawnder Adferol
- Amddifadu o Ryddid
- Honiadau o gam-drin neu esgeulustod tuag atoch chi
- Honiadau neu bryderon a godwyd ynghylch eich ymddygiad neu bryderon diogelu oddi wrthych am bobl eraill

**Ffynhonnell y data personol**

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn derbyn ac yn cofnodi gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau amdanoch. Gellid derbyn y wybodaeth hon gan:

- Chi
- Eich cynrychiolydd/eiriolwr/cynrychiolwyr cyfreithiol
- Eich Teulu
- Yr Heddlu
- Awdurdodau Iechyd
- Awdurdodau Addysg
- Awdurdodau Lleol Eraill
- Cymdeithasau Tai/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Cyrff rheoleiddio - Arolygiaeth Gofal Cymru/Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Asiantaethau Partner
- Gweithwyr Proffesiynol Meddygol/Meddygon Teulu
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Aelodau'r cyhoedd
- Asiantaethau Gofal Cartref

- Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio
- Y Gwasanaeth Erlyn Cenedlaethol
- Ystadau Diogel (carchardai)
- Eraill (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol / gwirfoddolwyr) a allai fod yn gysylltiedig â'ch gofal
- Eich cyflogwr

Os hoffech ragor o wybodaeth am y ffynhonnell o'r wybodaeth sydd gennym, cysylltwch â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Efallai y bydd hyn yn gofyn ichi wneud Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Diben y gwaith prosesu**

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu ystod eang o wasanaethau arbenigol, mewn partneriaeth ag asiantaethau a sefydliadau gwirfoddol eraill, i:

- Plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd
- Oedolion sy'n profi anawsterau o ddydd i ddydd oherwydd ystod o faterion, a'u teuluoedd

Mae dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth, cyngor a chymorth gan ystod eang o wasanaethau sy'n cwmpasu ardal Caerffili.

- Os oes angen **G**wybodaeth generig, ni fyddwn yn cofnodi unrhyw wybodaeth amdanoch ar ein systemau.
- Os oes angen **C**yngor manwl, bydd angen i ni gofnodi eich enw, manylion cyswllt a natur y cyngor a ddarperir ar gyfer ein cofnodion.
- Os oes angen **C**ymorth, byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch er mwyn cynnig y gefnogaeth gywir i ddiwallu'ch anghenion.

Gallai'r gefnogaeth a gynigir fod drwy wasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gwasanaeth a gomisiynir yn allanol neu wasanaeth 3ydd sector sydd â'r arbenigedd cywir i ddiwallu'r anghenion a nodwyd.

Os credir y gallai plentyn neu oedolyn agored i niwed fod mewn perygl, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymchwilio a dilynir Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gallai hyn gynnwys sawl asiantaeth, er enghraifft yr heddlu, y gwasanaeth iechyd neu'r maes addysg. Hefyd, os ydych chi'n weithiwr proffesiynol/gwirfoddolwr sy'n destun honiadau o gam-drin/esgeulustod, gallai hyn gynnwys eich cyflogwr.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Mae gofyniad tasg gyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth fel y manylir isod:

Bydd y ddeddfwriaeth sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yn dibynnu ar natur yr atgyfeiriad ond gall gynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012
- Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau 2015

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 (GDPR), mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1e. processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol arbennig, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau.

Sylwch fod yr Amod a nodir isod yn amod Erthygl 9 ac Erthygl 10 ar gyfer prosesu (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw).

*6 (1) This condition is met if the processing*
- *(a) is necessary for a purpose listed in sub-paragraph (2), and*
- *(b) Is necessary for reasons of substantial public interest.*

*(2) Those purposes are—*
- *(a) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law;*
- *(b) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department.*

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd atgyfeiriadau a dderbynnir am Wybodaeth a Chyngor yn unig, casglu data/gwybodaeth yn parhau o fewn y Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Os bydd eich atgyfeiriad yn mynd rhagddo ymhellach, bydd eich gwybodaeth/data'n cael eu trosglwyddo i dîm o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn derbyn y gwasanaethau neu'r cymorth priodol. Gall y timau hyn gynnwys:

- Timau Ardal Gwasanaethau i Blant
- Tîm 16+
- Tîm Plant ag Anableddau
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Tîm Cefnogi Newid Teuluol
- Gwasanaethau Diogelu Eraill
- Timau Pobl Hŷn
- Tîm Therapi Galwedigaethol
- Tîm Teulu a Ffrindiau
- Tîm Cymorth ar Unwaith
- Tîm Diogelu ac Adolygu (Cydlynydd Amddiffyn Plant)
- Tîm Lleoli Teuluoedd (Tîm Maethu)
- Tîm Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
- Tîm Anableddau Dysgu
- Tîm Camddefnyddio Sylweddau
- Tîm Iechyd Meddwl
- Tîm Cefnogi Pobl
- Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
- Timau Llety i Oedolion (Byw â Chymorth, Rhannu Bywydau a Seibiant)
- Tîm Comisiynu
- Gwasanaethau Preswyl a Gofal Dydd
- Tîm Cymorth Cartref ac Ailalluogi
- Cyd-Dîm Rhyddhau o'r Ysbyty
- Tîm Diogelu Oedolion/Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Tîm Cyllid Cleientiaid

Yn ychwanegol at yr uchod, efallai y bydd gan y timau canlynol fynediad i'ch gwybodaeth hefyd:

- Tîm Dyletswydd Brys De Ddwyrain Cymru - Os caiff atgyfeiriad ei wneud y tu allan i oriau
- Tîm Cwynion a Gwybodaeth - Os yw'r achos yn cynyddu i gŵyn
- Gwasanaethau Cyfreithiol - Os yw'r achos yn ymwneud â phroses y llys
- Tîm Gwasanaethau Ariannol - Os yw'ch achos yn cael ei asesu ar gyfer asesiad ariannol
- Cofnodion Addysg - Os oes arnom angen cofnodion Addysg i gwblhau asesiad
- Gwasanaethau Yswiriant - Os oes hawliad yn erbyn yr Awdurdod
- Tîm Iechyd a Diogelwch - Os oes angen asesiad risg
- Timau Cyllid Corfforaethol/Archwilio Mewnol - Os oes angen archwiliad
- Adnoddau Dynol - Os yw gweithiwr proffesiynol/gwirfoddolwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun honiadau o gam-drin/esgeulustod

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio ar gronfa ddata Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a hefyd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sef system ar y cyd ar gyfer darparwyr gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl yng Nghymru.

Bydd mynediad at eich gwybodaeth yn cael ei reoli, gan ganiatáu i ymarferwyr perthnasol ddefnyddio'r wybodaeth ofynnol i gefnogi darparu gofal diogel i ddinasyddion Cymru.

Bydd ein gweithredoedd mewn ymateb i'r wybodaeth a dderbynnir yn gymesur â'r wybodaeth a gall fod adegau pan fydd angen i ni siarad neu ymgynghori â chydweithwyr yn allanol. Gall hyn gynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Yr Heddlu
- Awdurdod Iechyd
- Llysoedd Teulu/Troseddol
- Awdurdodau Lleol Eraill
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Darparwyr Gofal Cartref
- Darparwyr dan gontract eraill, gan gynnwys cartrefi plant
- Darparwyr Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Darparwyr y 3ydd Sector
- Ystadau Diogel (Carchardai)
- Y Gwasanaeth Erlyn Cenedlaethol
- Sefydliadau/unigolion perthnasol eraill
- Eich cyflogwr (os ydych chi'n weithiwr proffesiynol/wirfoddolwr sy'n destun honiadau o gam-drin/esgeulustod)

Weithiau bydd angen ymyriad anstatudol ar gyfer eich anghenion. Yn yr achosion hyn, gwneir atgyfeiriad i sefydliadau perthnasol ar eich rhan, megis Canolfan Cyngor ar Bopeth neu grwpiau cymorth eraill ac ati.

Os oes angen sefydlu contract gyda darparwr allanol, i ddarparu gwasanaeth neu gefnogaeth berthnasol, bydd yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu gyda'r darparwr i sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn cael ei gyflenwi'n llwyddiannus.

Bydd pob rhannu o'ch data personol â sefydliadau eraill yn cael ei gyflawni yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych chi'n symud y tu allan i ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili, efallai y bydd eich data personol yn cael ei rannu gyda'ch awdurdod lleol newydd i barhau i'ch helpu i ddiwallu eich anghenion a/neu anghenion eich teulu.

I weld y wybodaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru ynglŷn â phobl sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol, cliciwch yma:

Os credir y gallai plentyn neu oedolyn agored i niwed fod mewn perygl, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymchwilio a dilynir Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gallai hyn gynnwys sawl asiantaeth, er enghraifft yr heddlu, y gwasanaeth iechyd neu'r maes addysg. Hefyd, os ydych chi'n weithiwr proffesiynol/wirfoddolwr sy'n destun honiadau o gam-drin/esgeulustod, gallai hyn gynnwys eich cyflogwr.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Pa mor hir byddwn yn cadw’ch gwybodaeth

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arferion gorau. Byddwn yn cadw'ch holl wybodaeth yn ddiogel, p'un ai a gedwir yn electronig neu ar bapur. Dim ond am gyfnod penodol o amser y cedwir eich gwybodaeth, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Cofnodion y Gyfadran.

Bydd natur y wybodaeth a gedwir gennym yn pennu faint o amser rydym yn ei chadw. Er enghraifft, yr isafswm amser yr ydym yn cadw gwybodaeth yw 6 mlynedd, mae hyn ar gyfer manylion Gofal Iechyd Parhaus. Mae'r cyfnod hwyaf yr ydym yn cadw gwybodaeth yn amhenodol ac mae hyn yn ymwneud â phryderon am ymarferwyr/gwirfoddolwyr.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

### Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### Y Weithdrefn Gwyno

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb